

## Medal 1922

Pe na byddai'r glaw wedi ein gorfodi i ohirio Cwpan Efe nos Wener byddai medalau wedi eu cyflwyno i enillwyr y gystadleuaeth.

Ond tybed faint ohonoch sy'n gyfarwydd â'r math o fedal a welir yn y llun hwn? Mrs Nia Williams, Blaen Cae Isaf, Deiniolen a'i dangosodd i mi. Medal a enillwyd yn 1922 gan ei thaid, y diweddar Emlyn Griffith, Rhiwlas pan oedd yn hogan ifanc, 13 oed yw hon, mewn cystadleuaeth drefnwyd gan gapel Ebeneser, Deiniolen. Mae'r fedal felly dros 90 oed, ac mewn cyflwr da o hyd.

Mae'r geiriau 'Ebeneer Football' i'w gweld arni ynghyd â'r dyddiad. Mae'n amlwg bod gan daid Nia feddl o'r fedal gan iddo ei chadw'n ofalus ar hyd y



blynyddoedd. Mae'n amlwg hefyd felly nad peth newydd yw i'r eglwysi drefnu cystadlaethau pêl-droed ar gyfer plant ac ieuencid. Roedd yn digwydd nôl yn 1922. Diolch i Nia am gael gweld y

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Mehffin 29

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Lewis

#### Gorffennaf 6

9.30 a.m. - Y Gweinidog  
10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Gorffennaf 13

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Mehffin 29

10.00 a.m. - Mr Andrew Settatree  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

#### Gorffennaf 6

10.00 a.m. - Mr Glyn Owen  
5.00 p.m. - Mrs Glenys Jones

#### Gorffennaf 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

2 ...  
1 ...



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 598 - Dydd Sul, 29 Mehefin, 2014

## Ffordd berffaith

Doeddwn i ddim ar yr A55 nos Sul na dydd Llun, diolch am hynny. O fewn llai na phedair awr ar hugain cafwyd tagfeydd traffig difrifol. Ar dri darn gwahanol o'r ffordd, ac am wahanol resymau, daeth y traffig i stop am rai oriau. Roedd hynny'n golygu cryn anhwylostod a rhwystredigaeth i bawb oedd ar y ffordd ar y pryd. Ond roedd pob un o'r digwyddiadau a barodd i'r lôn gael ei chau hefyd yn golygu poen a thrafferth i bawb oedd yn gysylltiedig â hwy. Ac yn un o'r achosion hyn roedd yn golygu galar a cholled i un teulu gan fod dyn wedi ei ladd mewn damwain ar Allt Rhuallt. Pan glywn am ddamweiniau felly, mae oriau o oedi'n swnio'n beth dibwys iawn.

Bu cryn drafod ar yr A55 ers iddi gael ei hagar flynnyddoedd yn ôl. Er ei bod yn amlwg yn welliant sylweddol ar yr hen lôn sy'n nadreddu trwy bentrefi a threfi'r Gogledd, buan iawn y daeth diffygion amlwg y briffordd newydd i'r amlwg. A thros y blynyddoedd, mae'r holl waith y bu rhaid ei wneud iddi a'r ffaith bod y digwyddiadau lleiaf (heb sôn am y damweiniau difrifol) yn peri i'r lôn gael ei chau yn cadarnhau'r ffaith bod i'r lôn ei gwendidau amlwg.

Un o'r pethau a ddywedodd Iesu Grist oedd, 'Myfi yw'r ffordd'. Ond pa fath o ffordd? Ffordd uniongyrchol, yn sicr, a ffordd ddirwysr. Mewn gair, ffordd berffaith. Mae mwy nag un rheswm dros ddiffygion yr A55. Roedd y llwybr y byddai'r A55 yn ei ddilyn ar hyd arfordir y Gogledd yn

creu problemau i'r cynllunwyr. Roedd gofynion cost hefyd yn golygu na ellid gwneud popeth y byddai'r cynllunwyr wedi dymuno ei wneud. Ac mae'n bosibl y gallai rhai pethau fod wedi eu gwneud yn well (beth bynnag yr her a beth bynnag y gost).

Ond ffordd berffaith yw'r Arglwydd Iesu Grist. Does ryfedd hynny gan fod y Duw a feddylodd am y ffordd hon yn berffaith. Nid tasg hawdd oedd gwneud ffordd i bobl ddod at Dduw. Roedd pob math o rwystrau: pobl wedi pechu yn erbyn Duw; Duw yn gyfiawn yn ddig efo nhw am hynny; pobl heb allu nac awydd i geisio Duw; a Duw yn cyhoeddi eu bod oherwydd hynny yn wrthoddedig ganddo. Ond Duw ei hun a gynnlluniodd y ffordd berffaith trwy ei Fab Iesu Grist i bechaduriaid ddod ato a chael eu derbyn ganddo, ac ni lwyddodd yr un rhwystr na maint y gost i'w atal. Roedd y gost yn enfawr, ond nid ymataliodd Duw rhag rhoi ei Fab ei hun yn aberth trosom ac yn ffordd i ni ddod ato.

O'r cychwyn, roedd angen addasu, a thrwsio a gwella'r A55, a dyna'r stori o hyd. Mae'r gwaith o'i gwella yn ddiddiwedd. Ond nid oes modd gwella ar y ffordd a drefnodd Duw ar ein cyfer. O'r cychwyn, roedd Iesu'n ffordd glir at Dduw, ac ni all unrhyw beth ei rwystro rhag bod felly o hyd i bwy bynnag sy'n dod ato ac yn credu ynddo. Nid oes modd gwella arno, ac nid oes angen hynny chwaith.

Gofalaeth Unedig  
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Trefor Lewis, Hen Golwyn. Croeso cynnes iawn iddo unwaith eto i'w hen Ofalaeth.

Gwasanaethir yn Llanberis am 10.00 gan Mr Andrew Settatee ac am 5.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli. Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

Dymwn yn dda hefyd i bawb arall sydd heb fod mewn iechyd cystal ag arfer ar hyn o bryd.

## Angladd

Roedd angladd Mr Iorwerth Evans, 5 Hafod Oleu, Deiniolen, yn yr Amlogfa ym Mangor dan arweiniad y Gweinidog ddydd Llun diwethaf, Mehefin 23. Bu farw Mr Evans ddydd Llun, Mehefin 16 yn 91 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn o'r newydd â'r teulu cyfan yn eu profedigaeth a'u hiraeth. Roedd yn dad i chwech, yn daid i ddeg ac yn hen-daid i ddeg. Roedd yn ŵr addfwyn, yn weithiwr diwyd, ac yn gymydog da. Mae tair blynedd ers iddo gollu ei briod, Peri, ac roedd yn braf cael ei gwmni gyda ni yn y cyfnod hwnnw nes i afiechyd ei rwystro rhag parhau i ddod ar nos Sul. Anfonwn ein cofion at y teulu gan dymuno pob nerth a chysur iddynt.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Annie Wilson-Evans, Plas Pengwaith, (Manod, Ffordd Capel Coch) a fu farw yn Ysbyty Gwynedd echdoe, ddydd Gwener, Mehefin 27. Roedd wedi bod yn wael yn yr ysbyty yn ystod y mis diwethaf. Yn unol â'i dymuniad bydd ei hangladd yn hollol breifat.

## Ehangu'r Ofalaeth

Fel y nodwyd yr wythnos ddiwethaf, bydd ffiniau'r Ofalaeth hon yn ymestyn o ddechrau'r flwyddyn nesaf i gynnwys dwy eglwys Annibynnol yn Nyffryn Ogwen, sef eglwysi Carmel, Llanllechid a Bethlehem, Talybont.

Cawn wneud y trefniadau angenrheidiol yn gynnar ym mis Medi. Yn amlwg bydd gofyn newid rhywfaint ar drefn f'odfaon i ar y Sul er mwyn i mi allu rhoi'r oedfaon angenrheidiol i'r ddwy eglwys. Bydd Deiniolen a Llanberis yn colli un o'm hoedfaon nos Sul y mis yr un. Bydd angen i ni drafod sut i ymateb i'r newid hwn, wrth gwrs.

## Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yma yn Ebeneser, Deiniolen am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Gorffennaf 9. Bydd y Parchg Ronald Williams yn cyflwyno adroddiad am Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddiwedd yr wythnos ddiwethaf yma.

## Cymdeithas Undebol

Cynhelir pwyllgor i drefnu rhaglen Cymdeithas Undebol Deiniolen ar gyfer y tymor nesaf yn Ebeneser am 1.30 o'r gloch ddydd Mawrth yr wythnos hon, Gorffennaf 1. Mae croeso i bawb sy'n dymuno gweld y Gymdeithas yn parhau i ddod i'r pwyllgor.

Bydd pwyllgor i drefnu rhaglen tymor nesaf Cymdeithas Undebol Llanberis ar ddiwedd y Bore Coffi misol nesaf, fore Mawrth, Gorffennaf 8, tua 11.30 o'r gloch.

## Ffair Haf

Cynhelir Ffair Haf yn Ffestri Capel Coch bnawn Mercher, Gorffennaf 9.

Fel arfer, bydd yno stondinau cacennau, tuniau, teganau, llyfrau, a nwyddau am-rywiol 'bron yn newydd'.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y stondinau, byddwn yn falch o'u derbyn.

Gwerthfawrogwn y gefnogaeth a geir i'r Ffair Haf bob blwyddyn.

## Cwpan Efe

Bu raid gohirio noson Cwpan Efe a oedd i'w chynnal yn Llanrug echnos.

Roedd yn anodd iawn gwybod beth oedd orau i'w wneud, a hyd at ryw 4.00 o'r gloch roeddem yn meddwl yn siwr y

byddai modd cynnal y noson. Ond pan ddaeth y glaw trwm penderfynwyd nad oedd dewis ond gohirio. Siom felly oedd sylweddoli ymhen rhyw awr arall bod y tywydd wedi gwella eto ac i ni gael noson eithaf sych yn y diwedd.

Rydym wedi aildrefnu'r noson ar gyfer nos Wener, Gorffennaf 11. Yr un fydd y trefniadau: pêl-droed 5-yr-ochr a phêl rwyd ar gyfer plant oed cynradd (Blwyddyn 3-6) ar gae Ysgol Gynradd Llanrug rhwng 6.00 a 9.00 o'r gloch.

## Cwpan CIC

Nos Iau, Gorffennaf 10, bydd hogiau CIC Llanberis yn cymryd rhan yng Nghwpan CIC i'r oedran uwchradd yn Abererch.

Ceir rhagor o fanylion gan Andrew.

## Trip Ysgol Sul

Bydd Trip Ysgol Sul Capel Coch yn cael ei gynnal yn gynnar ym mis Medi. Byddwn yn mynd i Tŷ Mawr Wybrnant ac unai'n cael picnic neu bryd o fwyd cyn dod adref.

## Cyhoeddiadau

**CEFNYWAUN AC EBENESER**

**Dydd Mawrth, Gorffennaf 1:** Pwyllgor y Gymdeithas Undebol yn Ebeneser am 1.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Gorff. 6:** Gwasanaethir am 9.30 a 5.00 gan y Gweinidog. Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

**CAPEL COCH A NANT PADARN**  
**Dydd Sul, Gorff. 6:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Glyn Owen ac am 5.00 o'r gloch gan Mrs Glenys Jones. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

**REHOBOTH**  
**Dydd Sul, Gorff. 6:** Ni fydd oedfa.